ARGYFWNG ROHINGYA
SYNIADAU AR GYFER ADDYSGU

Nod y syniadau ar gyfer addysgu hyn yw annog dysgwyr i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n cael eu gorfodi i fudo, gan hyrwyddo sgiliau meddwl yn feirniadol yr un pryd. Gall athrawon addasu'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion eu dysgwyr.

Sut yr ydym yn debyg? Sut yr ydym yn wahanol? (15 mun)

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhowch ddalen o bapur A3 i bob grŵp. Gofynnwch iddynt rannu eu papur yn ei hanner, gan labelu un ochr â “Tebyg”, a'r ochr arall â “Gwahanol".

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr holl ffyrdd y mae pobl yn eu dosbarth yn debyg, a'r holl ffyrdd y maent yn wahanol. Gofynnwch iddynt gofnodi eu syniadau.

- Trafodwch syniadau'r dysgwyr fel dosbarth cyfan. Efallai yr hoffech arddangos y taflenni o amgylch yr ystafell ddosbarth a chaniatáu amser i'r dysgwyr gymysgu ac archwilio syniadau'r grwpiau eraill.

- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried a ydynt yn credu y byddai'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol yr un peth i bobl ifanc eraill yn eu hysgol.

- Beth am bobl ifanc mewn rhannau eraill o'r DU? Beth am bobl ifanc mewn gwledydd eraill ledled y byd? Anogwch y dysgwyr i roi rhesymau dros eu syniadau.

Anghenion a dymuniadau (15 munud)

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y cwestiwn canlynol: Beth y mae angen i ni ei wneud yn dda mewn bywyd?
    - Meddwl: Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y cwestiwn ar eu pen eu hunain am funud.
    - Gwaith Pâr: Rhowch ddau funud i'r dysgwyr gymharu eu hatebion.
    - Rhannu: Treuliwch ychydig o funudau yn rhannu awgrymiadau'r dysgwyr fel grŵp cyfan.

  Cofnodwch eu syniadau ar fwrdd gwyn neu ar nodynnau gludiog ar wahân.

- Treuliwch ychydig o amser yn meddwl am y gwahaniaeth rhwng "anghenion" a "dymuniadau". Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y pethau y maent yn meddwl y mae arnom eu gwir angen i fyw. Ystyrir mai anghenion sylfaenol yw'r elfennau y mae ar fodau dynol eu hangen i oroesi, ond mewn gwirionedd mae angen llawer mwy na'r rhain arnom i allu ffynnu a byw yn y gymdeithas fodern. Dywedwch wrth y dysgwyr am ystyried eu syniadau eto a gofyn:
    - Pa rai o'r rhain sy'n “anghenion” a pha rai sy'n “ddymuniadau”?

  Efallai y bydd yn rhaid i chi brocio'r dysgwyr i ystyried teulu, lloches, diogelwch, addysg, chwarae, meddyginiaeth, cyfeillgarwch ac ati.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

- Gofynnwch i'r dysgwyr a ydynt yn meddwl bod pawb yn y byd yn gallu cael gafael ar yr holl bethau y mae arnynt eu hangen.

- Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - Pam yr ydych yn meddwl hyn?
  - Am ba resymau y gallai rhai pobl fod heb yr holl bethau y mae arnynt eu hangen?
  - Beth allai effeithiau hyn fod ar fywydau pobl?
  - A oes gan bobl wahanol anghenion a dymuniadau yn ôl lle maent yn byw?

Nodweddion a buddion (20 munud)

- Dangoswch y fideos byr hyn i'r dysgwyr. Maent yn trin â thrafod y cyfarpar y mae Oxfam yn ei gyflenwi mewn argyfwng: *The Oxfam Handy Wash Tap In 20 Seconds* a *The Oxfam Jerry Bucket in 20 Seconds*

- Trafodwch:
  - Pa nodweddion y mae Justin yn eu crybwyll wrth siarad am *The Oxfam Handy Wash Tap* a *The Oxfam Jerry Bucket*?
  - Beth yw'r buddion sy'n gysylltiedig â phob nodwedd? Sut y mae hyn yn helpu i ddiwallu anghenion sylfaenol pobl mewn argyfwng?

- Cymharwch eu hatebion â'r rhestr isod. Sawl ateb oeddent wedi meddwl amdanynt?

- Syniad am waith estynedig: Rhowch restr gymysg o nodweddion a buddion i'r dysgwyr (neu bob nodwedd a phob budd ar gardiau ar wahân). Gofynnwch i'r dysgwyr nodi a gwahanu'r nodweddion a'r buddion gyntaf. Yna gofynnwch iddynt baru pob nodwedd â'r budd y mae'n ei ddarparu.

  Nodwch: Mae nodwedd yn briodoledd benodol. Budd yw'r modd y gall y briodoledd honno ychwanegu gwerth.

Cyfarpar	**Nodwedd**	**Budd**
Oxfam Handy Wash Tap	Yn cysylltu wrth unrhyw gynhwysydd	Yn hawdd i bobl gadw eu dŵr yn ddiogel pan fyddant yn ei gario ymaith
	Yn cau ohono'i hun Yn dosbarthu ychydig bach o ddŵr	Dim gwastraff na llanast
	Un pwynt cyffwrdd	Dim unman i germau gronni
	Yn costio llai na £5	Gellir prynu a dosbarthu mwy os bydd arian ar gael

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Oxfam Jerry Bucket	Gellir eu pentyrru	Hawdd ei gludo
	Caead sy'n cau â chlep	Ni ddaw'r caead i ffwrdd a mynd ar goll
	Agoriad mawr	Hawdd ei lenwi a'i lanhau
	Tap i ddosbarthu dŵr	Ni all germau fynd i mewn

- Gofynnwch: Pa nodweddion eraill y byddent yn eu hychwanegu a allai helpu pobl ymhellach?

Pe bai'n rhaid i chi adael eich cartref, pa bethau y byddech yn mynd gyda chi? (30 mun)

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am bum peth y byddent yn mynd gyda nhw pe bai'n rhaid iddynt adael eu cartref yn sydyn, ac efallai na fyddent fyth yn gallu dod yn ôl. Gallai'r dysgwyr dynnu llun neu ysgrifennu enwau'r eitemau hyn ar luniad amlinell o gês dillad.

- Trafodwch syniadau'r dysgwyr. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - Beth y byddech yn mynd gyda chi?
  - Pam yr oeddech wedi dewis yr eitemau hyn?
  - A oedd hi'n anodd penderfynu? Pam?
  - Beth y byddech yn ei golli?

- Gellid herio dysgwyr mwy galluog i gwtogi eu rhestr i bedair eitem, yna tair, ac ati.
  - Pa eitem/eitemau a oedd gennych chi ar ôl?
  - Pam yr oeddech wedi dewis hwn/y rhain?

- Trafodwch pam y gallai rhywun gael ei orfodi i adael ei gartref; er enghraifft, o ganlyniad i sychder, llifogydd, tlodi neu wrthdaro.

- 'Nawr, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried a fyddent yn newid unrhyw un o'r eitemau a ddewiswyd ganddynt pe byddent wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi oherwydd un o'r rhesymau uchod. Trafodwch syniadau'r dysgwyr ynghylch pam y gallai rhai eitemau fod yn fwy defnyddiol yn y sefyllfaoedd hyn nag eraill.

- Gorffennwch trwy ofyn i'r dysgwyr sut y byddent yn teimlo pe byddent yn gorfod gadael eu cartrefi yn sydyn. Trafodwch eu syniadau. Gallai'r dysgwyr dynnu llun neu ysgrifennu'r teimladau hyn o amgylch amlinelliad eu cês dillad.

Meddwl yn feirniadol: Pwy? Beth? Ble? Pam? Pryd? Sut?

Mae'r gweithgaredd Pwy? Beth? Ble? Pam? Pryd? Sut? yn ddull ar gyfer meddwl yn feirniadol am faterion. Gallwch ei ddefnyddio gyda dysgwyr i ofyn chwe chwestiwn allweddol am unrhyw bwnc neu fater.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Dewiswch amrywiaeth o sylw gan yn y cyfryngau ar Argyfwng Rohingya. Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd nodiadau ar gyfer pob darn o dystiolaeth y maent yn edrych arni.

- PWY?
    - Pwy a ddywedodd hyn?
    - A yw'n rhywun y gallwch ymddiried ynddo?
    - Pam?

- BETH?
    - Beth a ddywedodd?
    - Ai ffeithiau neu farn oedd hyn?
    - A oedd wedi anghofio am rywbeth pwysig?

- BLE?
    - Ble yr oedd wedi ei ddweud?
    - A oedd wedi ei ddweud yn gyhoeddus neu'n breifat?
    - A oedd gan bobl yr hawl i fynegi barn wahanol?

- PAM?
    - Pam yr oedd wedi ei ddweud?
    - A oedd yn ceisio annog pobl eraill i feddwl neu wneud rhywbeth?

- PRYD?
    - A oedd wedi ei ddweud mewn ymateb i ddigwyddiad blaenorol?
    - A oedd wedi ei ddweud er mwyn dylanwadu ar ddigwyddiad diweddarach?

- SUT?
    - Sut yr oedd wedi ei ddweud?
    - A oedd wedi defnyddio iaith a oedd yn cynnwys tuedd neu emosiwn?
    - Os oeddech wedi gwylio fideo, a oedd y fideo yn cynnwys unrhyw gerddoriaeth neu effeithiau emosiynol?

- Gofynnwch: a yw eich barn a'ch safbwyntiau ynghylch y dystiolaeth wedi newid o ganlyniad i feddwl yn fwy beirniadol?

Cadwyn pam-pam-pam

Mae'r dull hwn yn annog y dysgwyr i feddwl y tu hwnt i argraffiadau arwynebol, ac i fynd ati i archwilio yn fwy manwl i fater. Mae'n well gwneud y gweithgaredd hwn mewn parau neu grwpiau o dri, neu fel gweithgaredd trafodaeth dosbarth cyfan.

- Ysgrifennwch y mater dan sylw mewn blwch ar ochr chwith y bwrdd gwyn neu ddalen fawr o bapur.

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr holl resymau uniongyrchol dros fodolaeth y mater. Dylai'r rhain gael eu hysgrifennu (neu eu lluniadu) mewn blychau mewn colofn gyfagos, wedi'u cysylltu â'r blwch priodol gan saethau.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y rhesymau posibl y tu ôl i'r set gyntaf hon o resymau. Efallai bod gan bob rheswm fwy nag un ffactor sy'n cyfrannu ato.

- Ailadroddwch y broses gynifer o weithiau ag y bydd y mater yn caniatáu, gan ddechrau colofn newydd i'r dde o'r un flaenorol bob tro.

- Y canlyniad terfynol yw siart llif sy'n tynnu sylw at gymhlethdod mater, ynghyd â'r graddfeydd achosiad gwahanol sy'n bodoli.

- Yna, gallech ofyn i'r dysgwyr wahaniaethu rhwng y cysylltiadau y gallant eu cefnogi â thystiolaeth a'r rhai na allant eu cefnogi.

- Ar ôl i'r broses fynd mor bell â phosibl, edrychwch ar y blychau ar yr ochr dde, ac anogwch y dysgwyr i ofyn: ‘A yw’n deg bod hyn yn digwydd?’ a ‘Beth y gellir ei wneud i newid pethau?’.

- Gweler tudalen 12 o *Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon*.

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.